Y dall yn gweld

Dyfalbarhad / amynedd / ymddiriedaeth

Beth am i chi gau eich llygaid yn dynn? Ydi pob man yn edrych yn ddu ac yn dywyll? Codwch ar eich traed. Dechreuwch gerdded o gwmpas yr ystafell. Byddwch chi'n ofalus rhag ofn i chi syrthio. Ydych chi'n cofio'r lliwiau yn yr ystafell? Ydych chi'n cofio sut un oedd eich ffrind gorau? Cofiwch, chewch chi ddim sbecian! Beth am edrych ar y teledu? Neu fwyta neu chwarae allan yn y buarth! Ydi, mae hi'n anodd iawn, iawn. Mae'r stori hon yn sôn am ddyn dall oedd yn begera ar ochr y stryd.

Eistedd ar gongl y stryd oedd Bartimeus drwy'r dydd. Byddai'n galw ar y bobl oedd yn mynd heibio. Galw am arian roedd o. Byddai rhai pobl yn mynd heibio heb roi dim, byddai eraill yn taflu ychydig o arian i'r bowlen oedd wrth ei ochr. Un diwrnod clywodd fod Iesu yn dod heibio. Clywai sŵn llawer iawn o bobl o'i gwmpas. Roedd ei glyw yn fain iawn. Roedd rhaid i'w glustiau wneud gwaith ei glustiau a'i lygaid. Dyn dall oedd Bartimeus. Doedd o erioed wedi gweld yn ei fywyd.

"Mae Iesu yn dod i'r ddinas heddiw," gwaeddodd un o'r bobl yn ddigon uchel i bawb glywed.

Meddai Bartimeus wrtho'i hun, "Mae'n rhaid i mi wneud rhywbeth i dynnu ei sylw. Dyma fy unig obaith. Rwy'n siŵr y gall o fy helpu."

Dechreuodd weiddi ar dop ei lais, "Iesu, Fab Dafydd, helpa fi."

Gwaeddodd un o'r dorf arno, "Taw, a bydd ddistaw."

Roedd llawer iawn o'r dorf yn dweud wrth Bartimeus am fod yn ddistaw. Ond dal i weiddi'n uchel, "Iesu, Fab Dafydd, helpa fi", a wnaeth Bartimeus.

Dyma oedd ei unig gyfle i gyfarfod â Iesu. Roedd yn dal i weiddi'n uchel ond, yn sydyn, tawelodd pawb. Roedd pob man yn ddistaw bach. Yn sydyn clywodd Bartimeus lais yn galw, "Galwch arno." Tybed ai llais Iesu oedd y llais?

Rhedodd un o'r dyrfa at Bartimeus, "Gwranda, mae Iesu yn galw arnat ti."

"Tyrd yn dy flaen," meddai un arall. Roedd pawb yn awyddus

i Bartimeus godi ar ei draed a mynd at Iesu. Cafodd help i godi ar ei draed. Am funud credai Bartimeus mai breuddwyd ydoedd.

"Bartimeus, mae Iesu yn galw arnat ti," bloeddiodd un arall o'r dorf.

Taflodd ei fantell oddi amdano a dechreuodd gerdded gyda help un neu ddau tuag at Iesu. Yna clywodd lais Iesu yn agos iawn ato. Gofynnodd Iesu iddo mewn llais mwyn,

"Beth yr wyt ti am i mi ei wneud i ti?"

Yn grynedig iawn fe ddywedodd wrth Iesu, "Athro, y mae arnaf eisiau cael fy ngolwg yn ôl."

Roedd y dorf i gyd yn ddistaw bach. Doedd yna ddim siw na miw yn unman. Edrychodd Iesu o'i gwmpas ac meddai wrth Bartimeus, "Gan dy fod ti wedi credu y buaswn yn gallu rhoi dy olwg yn ôl i ti, yna mi fyddi di'n gallu gweld."

Y munud hwnnw, roedd Bartimeus yn syllu ar wyneb Iesu. Edrychodd o'i gwmpas. Y fath liwiau. Y fath bobl. Doedd o erioed wedi gweld pobl o'r blaen. Roedd pob man yn edrych mor lliwgar. Gafaelodd yn ei fantell fudr a dilyn Iesu a'i ddisgyblion o'r ddinas. Hwn oedd diwrnod mwyaf ei fywyd. Roedd yn gweld, a hynny am y tro cyntaf erioed.

"Iesu, Fab Dafydd, trugarha wrthyf."
Marc 10:47

O Dduw,
diolch am bobl fel Bartimeus
oedd yn barod i roi cyfle i Iesu ei helpu.
Amen.

Fedrwch chi feddwl am enghreifftiau lle mae'r dall yn gweld heddiw?

Bartimeus: y ganrif gyntaf